

GWYBODAETH BWYSIG

Ynglŷn â'r Cyfuniad Arfaethedig o Undeb
Cenedlaethol yr Athrawon (NUT) a
Chymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ATL)

Chwefror 2017

Cyfuniad Arfaethedig o dan Ddeddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 (fel y'i diwygiwyd)

HYSBYSIAD I AELODAU O UNDEB CENEDLAETHOL ATHRAWON CYMRU

Beth yw pwrpas yr hysbysiad hwn?

Mae wedi ei awgrymu bod eich undeb yr NUT yn ymuno gyda'r ATL trwy gyfuniad o dan bennod VII o Ran 1 o Ddeddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur 1992 (fel y'i diwygiwyd).

Rydych chi nawr yn mynd i gael cyfle i bleidleisio i benderfynu os dylai hyn ddigwydd. Mi all y cyfuniad ddigwydd ond os yw'r ddwy undeb, mewn pleidleisiau drwy'r post ar wahân, yn pleidleisio o blaid naill ai drwy fwyafrif syml neu fwyafrif yn unol â datganiad llyfr rheolau'r undeb.

Termau'r cyfuniad

Mae'r cyd-destun llawn sy'n esbonio sut fydd y cyfuniad yn cymryd lle yn cael ei osod yn yr offeryn o gyfuniad (yr offeryn) a atodir fel rhan o'r hysbysiad hwn.

Os bydd y cyfuniad yn cymryd lle, bydd eich undeb a'r undeb arall sy'n ymglymedig yn y cyfuniad ddim wedyn yn bodoli fel undebau annibynnol, ac mi fydd undeb newydd yn cael ei ffurfio. Mi fyddwch yn dod yn aelod o'r undeb newydd yn awtomatig, wedi ei ffurfio o ganlyniad i'r cyfuniad, o 1 o Fedi 2017, neu o'r dyddiad pan fydd yr Offeryn o Gyfuniad yn cael ei gofrestru gan y Swyddog Ardystio os yw'r dyddiad hwnnw'n hwyrach.

Pleidleisio

Mae eich papur pleidleisio wedi'u hamgáu gyda'r Hysbysiad hwn.

Bydd pleidleisio yn dechrau ar Ddydd Llun 27 o Chwefror 2017 a rhaid i'r papur pleidleisio gael ei ddychwelyd erbyn 5.00pm ar Ddydd Mawrth 21 o fis Mawrth 2017, os yw'n mynd i gyfrif.

Rydych yn mynd i gwblhau a dychwelyd y papur pleidleisio yn yr amlen a ddarparwyd i archwiliwr annibynnol y bleidlais, Gwasanaethau Diwygio Etholiadol, Y Ganolfan Etholiadol, 33 Heol Clarendon, Llundain N8 0NW. Mi fydd papurau pleidleisiau a ddychwelir cyn cychwyn yr etholiad yn cael eu cyfrif fel rhai a dderbynnir ar ddiwrnod cychwyn y bleidlais.

Mae'r Hysbysiad hwn a'r Offeryn wedi ei gymeradwyo gan Swyddog Ardystio'r Undebau Llafur a Chymdeithasu'r Cyflogwyr.


Mi fydd YR OFFERYN O GYFUNIAD a wneir rhwng Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr ("ATL") ac Undeb Cenedlaethol yr Athrawon ("NUT") (y ddwy undeb sy'n cyfuno) os fydd yn llwyddo i gael cymeradwyaeth gan benderfyniad aelodau'r ddwy undeb ymglymedig, yn dod i rym ar ddyddiad cofrestru'r offeryn hwn ("y dyddiad effeithiol")

O GANLYNIAD CYTUNIR I:

1. Bydd y dyddiad yn dechrau ar y 1af o Fedi 2017 neu ddyddiad cofrestru'r offeryn hwn, pa un bynnag yw'r hwyrach. Wedi'r dyddiad effeithiol mi fydd aelodau'r ddwy undeb gyfunol yn dod yn aelodau o'r Undeb Newydd ac yn amodol ar reolau'r Undeb honno.
2. Enw'r undeb gyfunol fydd yr "Undeb Addysg Genedlaethol" ("National Education Union").
3. Bydd rheolau'r Undeb Newydd yn cynnwys:
 - 3.1 Y rheolau cyffredinol (trawsnewidiol) sydd wedi ei nodi yn yr atodlen.
 - 3.2 Mi fydd rheolau Adran yr ATL yn cynnwys y rheolau hynny a oedd mewn grym yn uniongyrchol cyn y dyddiad effeithiol i'r graddau eu bod yn gyson gyda'r rheolau cyffredinol. Mi fydd rheolau Adran yr ATL yn gymwys i holl aelodau'r Undeb Newydd oedd yn aelodau o'r ATL yn uniongyrchol cyn y dyddiad effeithiol, neu sydd ar ôl ymuno gyda'r Undeb Newydd ers y dyddiad effeithiol, wedi cael eu clustnodi i Adran yr ATL.
 - 3.3 Mi fydd rheolau Adran yr NUT yn cynnwys y rheolau hynny a oedd mewn grym yn uniongyrchol cyn y dyddiad effeithiol i'r graddau eu bod yn gyson gyda'r rheolau cyffredinol heblaw am reol; 44(d) ac atodiad VI, gan hynny ni fydd gan Adran yr NUT gronfa wleidyddol (yn amodol ar gymal 7 isod). Mi fydd rheolau Adran yr NUT yn gymwys i holl aelodau'r Undeb Newydd oedd yn aelodau o'r NUT yn uniongyrchol cyn y dyddiad effeithiol, neu sydd ar ôl ymuno gyda'r Undeb Newydd ers y dyddiad effeithiol, wedi cael eu clustnodi i Adran yr NUT.
 - 3.4 Mae'r rheolau (trawsnewidiol) cyffredinol yn datgan bod rheolau newydd yn mynd i ddisodli'r rheolau cyffredinol a'u newid i reolau adrannol ar y 1af o Ionawr 2019, neu ar ddyddiad cyn hynny os ceir gytundeb gan Bwyllgorau'r Gweithredol adrannau'r NUT ac adrannau'r ATL. Cyn y 1af o Ionawr 2019 (neu yng nghynt os fydd Pwyllgorau Gweithredol adrannau'r NUT a'r ATL yn caniatáu) ni ellir newid y rheolau heb gael cytundeb Pwyllgorau Gweithredol y ddwy adran.
4. Mi fydd asedau, cronfeydd ac eiddo'r undebau cyfunol ar ôl y dyddiad effeithiol, yn parhau i gael eu dal gan yr ymddiriedolwyr corfforaethol neu unigolion, a oedd yn ymddiriedolwyr o'r undebau cyfunol cyn y dyddiad effeithiol mewn ymddiriedolaeth ac er mwyn budd ac yn unol â rheolau'r Undeb Newydd.
5. Wedi'r dyddiad effeithiol bydd aelodau'r ATL yn dod yn aelodau o Adran yr ATL a bydd aelodau'r NUT yn dod yn aelodau o Adran yr NUT o'r Undeb Newydd. Bydd aelodau sy'n ymuno wedi'r dyddiad effeithiol yn aelodau o'r ddwy adran ac mi fyddant yn cael eu clustnodi i'r adran addas yn unol â darpariaethau'r rheolau cyffredinol ar gyfer dibenion cynrychiolaeth unigol, fel eraill a fydd yn aelod o'r NUT a'r ATL yn ystod cyfnod y dyddiad effeithiol.
6. Ar ôl y dyddiad effeithiol mi fydd aelodau Adrannau'r ATL a'r NUT o'r Undeb Newydd yn talu cyfraniadau i'r Adrannau addas ar yr un raddfa â'r hyn a dalwyd i'r undebau cyfunol cyn y dyddiad effeithiol. Mi fydd aelodau sy'n ymuno wedi'r dyddiad effeithiol yn talu maint a fydd yn cael ei osod gan y Cyngor Gweithredol ar y cyd.
7. Ar ôl dyddiad effeithiol yr Undeb Newydd, awgrymir y bydd pleidlais o'r aelodaeth yn cael ei galw i sefydlu cronfa di-blaid wleidyddol. Bydd y bleidlais yn cael ei chynnal yn unol â'r rheolau a gymeradwywyd gan y Swyddog Ardystio ac yn berthnasol i'r cyfnod pan gynhelir y bleidlais. Mi fydd y bleidlais yn cael ei chynnal wedi'r dyddiad effeithiol a chyn 31ain o Ragfyr 2018, gyda'r dyddiad manwl cywir yn cael ei gytuno gan y Cyngor Gweithredol ar y Cyd.


8. Wedi dyddiad effeithiol yr Undeb Newydd, bydd gweithwyr yr undebau cyfunol yn dod yn weithwyr i'r Undeb Newydd gyda thermau ac amodau na fydd yn llai ffafriol na'r rheiny mewn bodolaeth cyn y dyddiad effeithiol. Ni fydd unrhyw weithiwr o un o'r ddwy undeb gyfunol yn cael ei ddatgan yn ddi-waith o ganlyniad uniongyrchol o'r cyfuniad, heblaw bod caniatâd y gweithiwr yn cael ei rhoi.
9. Ar y dyddiad effeithiol:
 - 9.1 Bydd y Cyngor Gweithredol ar y Cyd o'r Undeb Newydd yn cynnwys 30 aelod – 12 aelod o Adran yr ATL ac 18 aelod o Adran yr NUT.
 - 9.2 Bydd yr aelodau o Adran yr ATL yn cael eu hethol gan ag o Bwyllgor Gwaith Adran yr ATL. Os bydd aelod o Adran yr ATL, sydd yn aelod o'r Cyngor Gweithredol ar y Cyd, yn peidio dal y swydd hon am unrhyw reswm, bydd y safle wag yn cael ei lenwi gan aelod o'r Pwyllgor Gwaith o Adran yr ATL yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Gwaith.
 - 9.3 Bydd yr aelodau o Adran yr NUT yn cael eu hethol gan ag o Bwyllgor Gwaith Adran yr NUT. Os bydd aelod o Adran yr NUT, sydd yn aelod o'r Cyngor Gweithredol ar y Cyd, yn peidio dal y swydd hon am unrhyw reswm, bydd y safle wag yn cael ei lenwi gan aelod o'r Pwyllgor Gwaith o Adran yr NUT yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Gwaith.
10. Bydd cyfnod aelodaeth pob aelod o'r Undeb Newydd a oedd gynt yn aelod o naill ai o'r undebau cyfunol yn uniongyrchol cyn y dyddiad effeithiol yn cael ei ystyried, at bob diben, fel cyfnod o aelodaeth barhaol o'r Undeb Newydd o ddyddiad diweddaraf y naill ai o'r undebau cyfunol.

Wedi ei lofnodi ar ran yr ATL




Mary Bousted
Ysgrifennydd Cyffredinol yr ATL

Wedi ei lofnodi a rhan yr NUT



Kevin Courtney
Ysgrifennydd Cyffredinol yr NUT




Shelagh Hirst
Aelod o Bwyllgor Gweithredol yr ATL



Philipa Harvey
Aelod o Bwyllgor Gweithredol yr NUT



Kim Knappett
Aelod o Bwyllgor Gweithredol yr ATL



Jerry Glazier
Aelod o Bwyllgor Gweithredol yr NUT



Niamh Sweeney
Aelod o Bwyllgor Gweithredol yr ATL



Gawain Little
Aelod o Bwyllgor Gweithredol yr NUT

RHEOLAU (TROSANNOL) YR ATODLEN GYFFREDINOL

1. ENW AC AMCANION

- 1.1. Mi fydd yr Undeb a ffurfir o dan y rheolau hyn yn cael ei galw'n "Undeb Addysg Genedlaethol" ("National Education Union").
- 1.2. Amcanion yr Undeb fydd, i'r graddau bo hynny'n gyfreithlon, i addysgu, trefnu, dylanwadu a negodi fel a ganlyn:
 - Hybu grym addysg fel proses gritigol a chreadigol sy'n galluogi dysgwyr i ddeall a chyfrannu i gymdeithas a'r byd ehangach maent yn byw ynddo a'i wella i'r gorau; i ddylanwadu polisi addysg drwy lobio a'r dyrchafiad o ymchwil; i fod yn llais ymgyrchu i athrawon, darlithwyr, staff cymorth ac arweinwyr ar draws y sector
 - Diogelu a gwella statws a hybu diddordebau proffesiynol cyfreithlon yr aelodau hynny sy'n ymwneud â throsglwyddiad, drwy gadw neu geisio cydnabyddiaeth yn y lleoedd gwaith ar bob lefel a chenedligrwydd, a thrwy gydfargeinio effeithiol o fewn awdurdodaeth y sefydliad
 - Hybu cydraddoldeb a thriniaeth deg i weithwyr proffesiynol addysg a chwilio am adnabyddiaeth fel modd o gyrraedd cydraddoldeb o fewn cymdeithas, naill ai, i rheiny gyda nodweddion gwarchoddedig neu'n dioddef tloidi neu anfantais gymdeithasol
 - Chwilio i drefnu'r holl broffesiwn addysgol drwy ymrwymiad ar lefel leol drwy recriwtio a datblygu cynrychiolwyr yn y gweithle er mwyn cryfhau'r sefydliad ar y cyd yn y gweithle
 - Sicrhau bod gan yr holl aelodaeth yr un cyfle i gynrychioli, cyfranogi, derbyn gwrandawriad a chyfrannu tuag at bolisïau'r sefydliad
 - Hybu hawliau unigolion i ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP) a ddaw o gyfeiriad y cyflogwr ar gyfer gweithwyr proffesiynol o fydd addysg ac i ddarparu amrywiaeth o gyfleoedd DPP i gefnogi aelodau i ddatblygu eu gyrfaoedd
 - Chwilio i ddylanwadu'r agenda gwleidyddol wrth gadw'n annibynnol o unrhyw blaid wleidyddol
 - Cyfranogi yn y mudiad ehangach o'r undebau llafur a hybu natur addysg yn fydol gan gynnwys y defnydd o "Education International."

2. ADRANNAU AC AELODAETH

- 2.1. Mi fydd yr Undeb yn cynnwys dwy Adran: Adran yr ATL ac Adran yr NUT. Mi fydd rheolau'r Undeb yn cynnwys y rheolau cyffredinol hyn a rheolau'r ddwy Adran. Mi fydd materion pob Adran yn cael eu cynnal yn unol â'r rheolau cyffredinol a rheolau'r Adran honno.

Mi fydd cwynion yn erbyn aelodau o'r Adran sy'n honni aelod o'r Adran wedi torri'r Rheolau Adrannol yn cael eu delio o dan Reolau'r Adran. Ar achlysuron, lle mae aelod yn cael ei gyhuddo o dorri'r rheolau cyffredinol, mi fydd yr aelod hwnnw yn cael ei ddelio gyda'r Cyngor Gweithredol ar y Cyd, neu unrhyw unigolyn sydd â'r grym i ymchwilio a disgyblu ar ran y corff hwnnw. Mi fydd y Cyngor Gweithredol ar y Cyd yn darparu proses deg o ddisgyblaeth ac mi fydd system o apêl yn erbyn penderfyniad o ddisgyblaeth yn cael ei sefydlu gan berson neu bersonau nad oedd yn rhan o'r broses ddisgyblaeth wreiddiol.
- 2.2. Mi fydd rheolau pob Adran, ond iddynt fod yn gyson gyda'r rheolau cyffredinol yn unig, yn achos rheolau Adran yr ATL yn gyson â rheolau'r ATL, ac yn achos rheolau Adran yr NUT yn gyson â rheolau'r NUT, heblaw am yr eithriad o Reol 44 (d) ac atodiad VI. Yn y ddau achos y rheolau Adrannol fydd y rheolau dylanwadol yn yr undeb rhagflaenydd perthnasol yn unionrychol cyn y dyddiad y daeth y cyfuniad o'r ddwy undeb mewn i fodolaeth ("dyddiad y cyfuniad"), ar wahân i Reol 44 (d) ac atodiad VI o'r NUT.

Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r rheolau cyffredinol hyn:

- (a) Mae cyfeiriadau yn rheolau Adran yr ATL ac mewn unrhyw weithred ymddiriedolaeth neu unrhyw reolau unrhyw gynllun pensiwn a sefydlwyd gan yr ATL neu gan unrhyw undeb ag oedd wedi trosglwyddo ei ymrwymiadau iddo neu gan unrhyw ragflaenwyr ac yn erthyglau cysylltiol unrhyw ymddiriedolwr corfforedig o ATL i unrhyw gorff neu swyddog o ATL i'w ddehongli fel cyfeiriadau i'r corff neu swyddog cyfatebol yn yr Adran ATL;
- (b) Mae cyfeiriadau yn rheolau'r Adran yr NUT ac mewn unrhyw weithred ymddiriedolaeth neu unrhyw reolau unrhyw gynllun pensiwn a sefydlwyd gan yr NUT neu gan unrhyw undeb ag oedd wedi trosglwyddo ei ymrwymiadau iddo neu gan unrhyw ragflaenwyr ac yn erthyglau cysylltiol unrhyw ymddiriedolwr corfforedig o NUT i unrhyw gorff neu swyddog o NUT i'w ddehongli fel cyfeiriadau i'r corff neu swyddog cyfatebol yn yr Adran NUT;

- 2.3 Pan fo'r Undeb yn trefnu neu gynrychioli unigolion sy'n cymryd rhan mewn galwedigaeth neu'n ceisio gwneud hynny, mi fydd unrhyw berson sy'n cymryd rhan yn yr alwedigaeth yn gymwys i dderbyn aelodaeth o'r Undeb. Mi fydd pob aelod o'r Undeb yn medru bod yn aelod i o leiaf un o'r Adrannau. Mi fydd aelodau newydd yn aelodau o'r ddwy adran ac mi fyddant yn cael eu dyrannu i'r adran fwyaf addas ar gyfer dibenion cynrychioliadol trwy gymryd mewn i ystyriaeth awdurdod pob adran cyn y cyfuniad. Bydd hyn yn addas i bawb oedd yn aelod o'r NUT a'r ATL yn ystod dyddiad y cyfuniad. Mi fydd aelodau newydd yn talu'r pris tanysgrifio a gytunir gan Gyngor Gweithredol ar y Cyd.
- 2.4 Mi fydd aelodau sy'n aelodau o'r ddwy adran yn cael yr hawl i bleidleisio mewn pleidleisiau yn y ddwy adran yn unol â diffiniad rheolau'r adran ar wahân i amgylchiadau lle mae pleidlais yn cael ei chynnal yn y ddwy adran ar yr un pryd ac ar yr un mater, ac o ganlyniad mi fyddant ond yn cael hawlio un bleidlais sengl.
- 2.5 Mi fydd y cyfnod o'r dyddiad effeithiol o Offeryn y Cyfuniad hyd nes gweithrediad y rheolau newydd un unol â rheol gyffredinol 6.3i, yn cael ei ddisgrifio fel "y cyfnod trosiannol".

3. Y CYNGOR GWEITHREDOL AR Y CYD

- 3.1 Mi fydd llywodraeth, rheolaeth ac arolygaeth yr Undeb yn cael ei freinio yn y Cyngor Gweithredol ar y Cyd, ac eithrio bod pob Adran, yn amodol ar ddarpariaethau'r rheolau cyffredinol hyn, yn cadw ymreolaeth mewn materion sy'n ymwneud yn gyfan gwbl gydag elfennau mewnol o'r Adran honno ac sydd ddim yn effeithio ar yr Adran arall neu unrhyw aelod o'r Adran arall honno.
- 3.2 Mi fydd y Cyngor Gweithredol ar y Cyd yn gwneud eu penderfyniadau ar sail mwyafrif syml o'r rheiny sy'n bresennol, gyda phob aelod yn hawlio un bleidlais, ar wahân i faterion yn ymwneud â'r rheolau cyffredinol, mi fydd y rheolau newydd a gyfeirir atynt yn adran 6.3i neu pan fo naill ai'r Ysgrifenyddion Cyffredinol ar y Cyd yn credu bod mater arbennig mor sylfaenol fel y byddai'n effeithio ar amcanion yr undeb fel bod mwyafrif o ddim llai na saith deg pump y cant o'r pleidleiswyr yn ofynnol.
- 3.3 Mi all y Cyngor Gweithredol ar y Cyd wneud rhai pethau ac awdurdodi gweithredoedd sy'n gyson â rheolau ac amcanion yr Undeb, os byddai'n teimlo i fod yn hwylus i hybu diddordebau'r Undeb neu unrhyw un o'i aelodau. Mi fydd grym y Cyngor Gweithredol ar y Cyd yn cynnwys yr awdurdod i drefnu pleidlais i gynnal gweithred ddiwydiannol ond dim ond ar ôl cynnal arolwg o aelodau i ddangos bod y fath bleidlais yn mynd i fod yn llwyddiannus a chwedd â'r gofynion deddfwriaethol. Mi all y Cyngor Gweithredol ar y Cyd ddirprwyo awdurdod i is-bwyllgor mewn perthynas â materion yn ymwneud a gweithredoedd diwydiannol lleol.

- 3.4 Bydd y Cyngor Gweithredol ar y Cyd yn cynnwys tri deg aelod, gyda deuddeg aelod yn dod o Adran yr ATL a deunaw aelod o Adran yr NUT. Bydd gan bob un o'r aelodau bleidlais. Mi fydd yr aelodau gwreiddiol o Gyngor Gweithredol ar y Cyd yn cael penderfynu yn unol â'r Offeryn Cyfuno a achosodd ddyfodiad yr Undeb ac os bydd aelod o'r Cyngor Gweithredol ar y Cyd yn peidio bod yn swyddog arno am unrhyw reswm bydd y safle gwag yn cael ei lenwi yn unol â darpariaethau'r Offeryn Cyfuno. Mi fydd gan yr Ysgrifenyddion Cyffredinol yr hawl i fynyachu a siarad yn holl gyfarfodydd y Cyngor Gweithredol ar y Cyd.
- 3.5 Mi fydd y Cyngor Gweithredol ar y Cyd yn cyfarfod o leiaf chwe gwaith y flwyddyn. Mi fydd y cyfarfodydd hyn yn cael eu cadeirio gan Gadeirydd pob un o'r Gweithredwyr Adranol yn eu tro. Bydd y Cadeiryddion yn ymwybodol o'u dyletswydd ymddiriedol tuag at yr Undeb yn gyffredinol. Bydd pleidlais y Cadeirydd o'r un pwysau a gweddill o aelodau'r Cyngor Gweithredol ar y Cyd ac ni cheir pleidlais ychwanegol hyd yn oed mewn achos o bleidlais gyfartal. Mi fydd agenda'r cyfarfodydd yn cael ei gytuno ymlaen llaw gan Ysgrifenyddion Cyffredinol y Cyd.
- 3.6 Ni fydd un grŵp neu unigolyn o naill ai adran yn medru cynnig eu hunain fel cynrychiolwyr o'r Undeb mewn materion ariannol, neu roi ymrwymiad ariannol rhwystredig ar yr adran arall neu'r Undeb gyfunol lawn, heblaw bod y gweithrediad masnachol wedi ei chytuno gan y Cyngor Gweithredol ar y Cyd neu'n ysgrifenedig gan y ddau Ysgrifennydd Cyffredinol y Cyd.
- 3.7 Mi fydd Ysgrifennydd Cyffredinol o'r ATL a'r Ysgrifennydd Cyffredinol o'r NUT yn gwasanaethu fel Ysgrifenyddion Cyffredinol y Cyd yr Undeb Newydd yn ystod cyfnod yr Offeryn Cyfuno; y ddau hefyd yn ychwanegol, yn gyfrifol am gynrychioli eu cyn undebau.
- 3.7.1 Er mwyn darparu parhad o'r cyfnod trosiannol ac i oruchwyllo'r Undeb Newydd ac i drefnu etholiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol Dynodedig, mi fydd etholiad am safle'r ddau Ysgrifennydd Cyffredinol y Cyd yn cymryd lle gyda'r ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu hethol am dymor penodol gan ddechrau ar y 1af o Awst 2018 a diweddau ar y 31ain o Orffennaf 2023.
- 3.7.2 Mi fydd etholiad yn cael ei chynnal i ethol yr Ysgrifennydd Cyffredinol Dynodedig o'r Undeb Newydd. Mi fydd y swyddog hwn/hon yn cael ei ethol gan holl aelodau'r Undeb Newydd, a bydd yr etholiad yn cymryd lle mewn amser a fydd yn sicrhau fod yr enillydd yn dechrau'r tymor etholiadol o'r 1af o Awst 2023.
- 3.7.3 Pe bai un o'r ddau Ysgrifennydd Cyffredinol y Cyd yn ymadael o'r swydd, am ba reswm bynnag, rhwng y 1af o Awst 2018 a'r 31ain o Orffennaf 2023 mi fydd yr adran berthnasol yn ethol olynnydd hyd nes 31ain o Orffennaf 2023.
- 3.7.4 Pe bai un o'r ddau Ysgrifennydd Cyffredinol yn ymadael o'r swydd am ba bynnag rheswm cyn y 1af o Awst 2018, mi fydd yr adran berthnasol yn ethol olynnydd i ddal y swydd nes y cyntaf o 2018.
- 3.7.5 Mi fydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol Dynodedig yn dechrau ei waith fel Ysgrifennydd Cyffredinol i'r Undeb Newydd ar y cyntaf o Awst 2023.
- 3.7.6 Mi fydd yr holl etholiadau canlynol am y swydd o Ysgrifennydd Cyffredinol yn seiliedig ar etholiad a fydd yn hawlio pleidlais i'r holl aelodaeth o'r Undeb Newydd.

3.7.7 Mi fydd Ysgrifenyddion Cyffredinol y Cyd yr Undeb yn gyfrifol am weinyddu materion yr Undeb; gan gynnwys ymgynnull cyfarfodydd a gweithredu penderfyniadau'r Cyngor Gweithredol ar y Cyd, delio â chyfathrebiad ar ran yr Undeb, cynnal a chadw cyfrifon yr Undeb, rheoli staff proffesiynol yr Undeb a chwblhau dyletswyddau eraill a gyfrifir i fod yn addas gan y Cyngor Gweithredol ar y Cyd. Hyd nes 1af Ionawr 2019 (neu gyn hynny os cytunir gan Bwyllgorau Gwaith adrannau'r ATL a'r NUT) mi fydd gan y ddau Ysgrifennydd Cyffredinol y Cyd awdurdod am y cyfrifoldebau hyn yn eu hadrannau unigol. Gall y ddau Ysgrifennydd Cyffredinol y Cyd ddirprwyo cyfrifoldebau y gall ef / hi eu hystyried yn briodol i aelod o staff proffesiynol yr Undeb.

- 3.8 Mi fydd Ysgrifenyddion Cyffredinol y Cyd dan reolaeth ac actio yn unol â chyfarwyddiadau'r Cyngor Gweithredol ar y Cyd. Rhwng cyfarfodydd Cyngor Gweithredol ar y Cyd mi fydd y ddau Ysgrifennydd Cyffredinol yn arfer y pwerau a ddarparir i'r Cyngor Gweithredol ar y Cyd ar yr amod nad yw ef/hi yn actio'n anghyson gyda phenderfyniadau'r Cyngor Gweithredol ar y Cyd.
- 3.9 Mi fydd yr holl staff proffesiynol a gyflogir gan yr Undeb yn cael eu hapwyntio ar sail cymhwysedd a theilyngdod i alluogi gwneud y swydd. Mi fydd angen caniatâd y Cyngor Gweithredol ar y Cyd cyn newid eu telerau a'u hamodau o gyflogaeth neu drefniadau pensiwn. Yn ystod y cyfnod trosiannol bydd pob apwyntiad o swyddi cyflogedig i'r undeb newydd, naill o staff a gyflogwyd naill ai gan adrannau'r ATL neu'r NUT, neu weithwyr gwbl newydd, yn cael eu hawdurdodi gan, neu o dan gyfarwyddid o'r, Ysgrifenyddion Cyffredinol ar y Cyd, ar ôl dilyn y broses apwyntiadau a gytunwyd.
- 3.10 Rhaid i bob adran gadw cyfrifon rheoli a'u datgan i'r Cyngor Gweithredol ar y Cyd. Mi fydd pob adran yn datgan rhwymedigaethau a gafwyd i'r Cyngor Gweithredol ar y Cyd, a rhwng cyfarfodydd i'r Ysgrifennydd Cyffredinol y Cyd o'r Adran arall am rwymedigaethau eraill, gan gynnwys ceisiadau Llys/ET/CO sydd wedi eu codi yn erbyn yr adran honno neu'r undeb gyfan mewn perthynas â gweithredoedd neu esgeulustod honedig ar ran yr adran.
- 3.11 Pan fydd un adran yn dymuno mynd i mewn i gytundeb newydd am unrhyw wasanaeth, eiddo neu gyfleuster mi fydd yn ymdrechu i weithio gyda'r adran arall i gael y gwerth cyffredinol gorau i'r Undeb ar gyfer cytundebau a fydd yn parhau tu hwnt i'r cyfnod trosiannol. Mewn achlysuron o anghytundeb wedyn, mi fydd y cytundeb yn cael ei ddwysau a'i gyfeirio at y Cyngor Gweithredol ar y Cyd.
- 3.12 Ni fydd gweithiwr o'r naill undeb sy'n cyfuno na'r llall yn cael eu datgan i fod yn ddi-waith fel canlyniad uniongyrchol o'r cyfuniad o'r undebau hynny heb gael caniatâd y gweithiwr.

4. STRWYTHURAU LLEOL

- 4.1 Yn ystod y cyfnod trosiannol (fel y diffinnir gan reol 2.5) mi fydd strwythurau adrannau lleol yr ATL a'r NUT yn gweithredu yn yr un ffordd a chyn y dyddiad cyfuno, wedi eu llywodraethu gan reolau lleol adrannau perthnasol yr ATL a'r NUT, yn union fel cyn y dyddiad cyfuno. Ar ddiwedd y cyfnod trosiannol mi allai Cyngor Gweithredol ar y Cyd ganiatáu i swyddogion lleol i gwblhau eu termau yn y swyddfa ar y cyd.
- 4.2 I'r graddau eu bod yn gyson gyda'r rheolau cyffredinol, mi fydd gan y strwythurau lleol pob Adran ymreolaeth mewn perthynas â materion yn ymwneud yn llwyr â materion mewnol yr Adran honno ac sydd ddim yn effeithio ar ddiddordebau'r Adran arall neu unrhyw aelod o'r Adran arall.

- 4.3 Mi fydd aelodaeth a swyddogion strwythur lleol pob Adran yn cael ei phenderfynu dan eu rheolau Adrannol. Mi fydd swyddogion etholedig o strwythurau pob Adran yn cadw eu dyraniad cyfleuster, cymaint â phosib, ac ym mhob achos yn yr un gymhareb, a fodolodd ar y dyddiad cyfuno.
- 4.4 Bydd trafodaethau rhwng swyddogion lleol yn ymgeisio i adeiladu perthnasau gwaith cryf i arwain at strwythurau newydd undebol i ddod i rym ar ôl y cyfnod trosiannol. Yn ystod y cyfnod trosiannol, ym mhob awdurdodaeth, lle'r oedd gan y ddwy Adran aelodau cyn y dyddiad cyfuno, yn gyfochrog i strwythurau lleol pob Adran, mi fydd yna gyfarfodydd rheolaidd rhwng y swyddogion lleol perthnasol. Mi fydd pob adran yn penderfynu, o blith ei swyddogion lleol etholedig, pwy fydd yn mynychu'r gyfarfodydd. Mi fydd sail ddaearyddol y math gyfarfodydd yn adlewyrchu un i bob awdurdod addysg.
- 4.5 Mi fydd cyfarfodydd ar gyfer cyd-swyddogion lleol yn cydlynu'r holl faterion a fydd yn effeithio ar ddidordebau aelodau'r ddwy Adran, gan gynnwys:
- i) Negodi gyda chyflogwyr a oedd ar y dyddiad cyfuno yn cydnabod yr ATL a'r NUT;
 - ii) Cefnogaeth a chynrychiolaeth aelodau;
 - iii) Perthnasau allanol;
 - iv) Dyrannu amser cyfleuster;
 - v) Ymgysylltiad gyda'r aelodaeth
 - vi) Paratoi awgrymiadau ar gyfer strwythurau lleol ôl-drosiannol a fydd yn dod o dan y rheolau newydd a ddaw i le yn unol â rheol gyffredinol 6.3i a hefyd fydd yn amodol ar gadarnhad gan Gyngor Gweithredol ar y Cyd cyn diwedd y cyfnod trosiannol a;
 - vii) Unrhyw fater arall maent yn penderfynu ymhlith ei gilydd ac sy'n gyson gyda'r rheolau cyffredinol ac Adrannol.
 - viii) Unrhyw faterion eraill a gafodd eu cyfeirio atynt gan Gyngor Gweithredol ar y Cyd yn ystod y cyfnod trosiannol.
- 4.6 Ni fydd gan gyd-gyfarfodydd swyddogion lleol unrhyw awdurdod dros faterion sy'n berthnasol yn unig i faterion mewnol y naill Adran neu'r llall neu sy'n berthnasol yn unig i aelodau o naill ai Adran. Mi fydd unrhyw dreuliau a ddaw o waith y cyfarfodydd lleol yma yn cael eu hariannu gan strwythurau lleol pob un o'r Adrannau.
- 4.7 Mi fydd swyddogion lleol yn penderfynu ar amllder ac amserlen y cyfarfodydd, ac eithrio eu bod yn cwrdd o leiaf unwaith ym mhob tymor. Mi fydd yr agenda i'r cyfarfodydd lleol yn cael ei benderfynu gan faterion a nodir yn 4.6 uchod.
- 4.8 Mi fydd swyddogion lleol yn gyfrifol am adrodd i'w adrannau perthnasol ynglŷn â'r trafodaethau a chrybwyll unrhyw faterion perthnasol i'r Cyngor Gweithredol ar y Cyd.
- 4.9 Mi fydd cynrychiolwyr y gweithle, wedi'u hethol ag yn achrededig un unol â'u rheolau Adrannol yn dal i gynrychioli aelodau'r Adran yn y gweithle. Os yw cynrychiolwyr gweithle'r ATL a'r NUT yn cael eu rhyddhau gyda thâl mi fydd termau 4.3 yn gymwys. Mi fydd gweithio mewn tîm, rhannu dyletswyddau cynrychioliadol yn cael eu mabwysiadu a'u hannog (e.e. addysg undebol, iechyd a diogelwch, staff cymorth ac arweinyddiaeth).
- i) Mi ddylai cynrychiolwyr o'r ATL a'r NUT yn yr un gweithle gyfarfod yn rheolaidd i gydlynu recriwtio, cyfatebiaeth, negodi a materion yn ymwneud â materion cynrychioliadol. Mewn sefyllfa pan mai dim ond un undeb oedd yn cael ei chydnabod yn ystod cyfnod y cyfuniad, mi ddylai'r cynrychiolydd hwnnw actio fel yr arweinydd mewn materion yn ymwneud â materion cynrychioliadol.

- ii) Yn y gweithleoedd ble mae cynrychiolydd nail ai o'r ATL neu'r NUT yn unig, mi ddylai'r aelodau yn yr Adran heb gynrychiolydd gael y cyfle i ethol cynrychiolydd yn unol â'u rheolau Adrannol. Mewn sefyllfa lle na cheir cynrychiolydd etholedig, gall aelodau'r adran honno geisio arweiniad, cefnogaeth a chynrychiolaeth gan y cynrychiolydd o'r Adran arall.
- iii) Mewn lleoedd gwaith lle nad oes naill ai gynrychiolydd o'r ATL neu'r NUT mi fydd aelodau'r ddwy Adran yn cael y cyfle i ethol naill ai gynrychiolydd i'r ddwy Adran, yn unol â rheolau Adrannol, neu ethol cynrychiolydd ATL-NUT ar y cyd i gynrychioli'r holl aelodaeth.

4.10 Os bydd sefyllfa'n codi lle na ellir datrys unrhyw anghydfod gyda chymorth y staff proffesiynol, bydd y mater yn cael ei osod o flaen y Cyngor Gweithredol ar y Cyd fel bod penderfyniad yn cael ei wneud.

5. CRONFEYDD


- 5.1 Mi fydd holl gronfeydd ac asedau'r Undeb yn cael eu dal gan yr ymddiriedolwyr ar ran yr Undeb yn unol â darpariaethau'r rheolau cyffredinol ac adrannol. Yr ymddiriedolwyr bydd yr ymddiriedolwyr corfforaethol neu'r unigolion a oedd yn ymddiriedolwyr i'r undebau cyn y dyddiad effeithiol o'r Offeryn Cyfuno.
- 5.2 Mi all y cyfrifon cael eu cynnal, drwy gofnodi ar wahân incwm a gwariant pob un o'r Adrannau yn ystod pob blwyddyn. Mi fydd yr incwm a fydd yn cael ei gredydu i bob Adran yn cynnwys y cyfraniadau a dalwyd gan yr aelodau o'r Adran, o asedau a chytundebau affinedd a ddaeth i ffordd yr Undeb. Mi fydd yr asedau a gyfeirir at bob Adran yn cynnwys yr asedau cychwynnol o'r Adran, asedau a brynwyd o incwm yr Adran ac enillion o'r math Asedau. Bydd incwm a gyfeirir at y ddwy Adran yn cael eu credydu i bob un o'r Adran gan gymryd i ystyriaeth maint cyfraniad yr Adrannau tuag at y pryniant o'r asedau.
- 5.3 Bydd asedau cychwynnol Adran yr ATL yn asedau a oedd gynt yn eiddo i'r ATL, a bydd asedau cychwynnol Adran yr NUT yn asedau a oedd gynt yn eiddo i'r NUT, gan gynnwys y rheini a ddelir yn lleol. Bydd yr asedau cychwynnol o'r ddwy Adran yn parhau i gael eu dal gan yr ymddiriedolwyr hynny a ddelir yr asedau yn uniongyrchol cyn i'r rheolau cyffredinol ddo i mewn.
- 5.4 Mi fydd yr holl wariant adrannol yn cael ei debydu o'r Adran berthnasol. Mewn sefyllfa lle welwyd gwariant ar ddarpariaeth o wasanaeth neu gyfleuster er budd i'r ddwy adran, mi fydd y gwariant yn cael ei ddebydu o'r ddwy Adran mewn modd cyfrannol a fydd yn adlewyrchu defnydd y ddwy Adran o'r gwasanaeth neu gyfleuster. Ar adeg pryd mae'r Undeb yn gwario ar gostau nad ydynt yn Adrannol, mi fydd yn cael ei ddebydu i'r ddwy Adran mewn rhannau cyfartal, heblaw bod y Cyngor Gweithredol ar y Cyd yn anghytuno. Mi fydd gwariant sy'n berthnasol i gyflogaeth staff proffesiynol yn cael ei drin yn yr un modd a ffyrdd eraill o wariant.
- 5.5 Bydd y Cyngor Gweithredol ar y Cyd, wedi ymgynghori gyda'r Ysgrifenyddion Cyffredinol y Cyd, yn penderfynu pa categorïau o wariant fydd yn cael ei gyfrif fel gwariant adrannol a bydd unrhyw anghydfod ynglŷn â'r gwariant gan neu'r incwm i bob Adran yn cael ei gyfeirio at y Cyngor Gweithredol ar y Cyd, a bydd ei benderfyniad yn derfynol a gorfodol ar yr Adran.

- 5.6 Wedi ystyried amodau'r rheolau cyffredinol hyn, bydd Pwyllgor Gweithredol Adran yr ATL a Phwyllgor Gweithredol Adran yr NUT yn rheoli gwariant o'u Hadrannau, ar yr amod bod Adran ddim yn gwario mwy na'u hincwm am y flwyddyn honno, cael benthyciad neu orddrafft heb gael caniatâd Cyngor Gweithredol ar y Cyd yr Undeb, yn unol â chyngor yr Ysgrifenyddion Gweithredol y Cyd, a all gymryd camau y gellir cael eu hystyried yn briodol i leihau gwariant yr Adran i lefel na fydd yn rhagori ar ei incwm am y flwyddyn. Nid yw'r gofyniad hwn am ganiatâd gan y Cyngor Gweithredol ar y Cyd yn berthnasol i'r cronfeydd lleol. Fodd bynnag, ni all cronfeydd lleol gael eu defnyddio i wneud ymrwymiad gwariant tu hwnt i ddiwedd y cyfnod trosiannol, heb gael caniatâd y ddwy adran.
- 5.7 Mi fydd cwmni o gyfrifwyr siartredig yn cael eu hapwyntio gan Gyngor Gweithredol ar y Cyd fel archwilywr i'r Undeb gyfan. Cyn gynted ag y mae'n ymarferol a phosib, mi fyddant yn ceisio sicrhau bod incwm, gwariant, asedau a rhwymedigaethau o bob adran yn cael ei gofnodi yng nghyfrifon pob Adran mewn dull tebyg trwy ddefnyddio meini prawf cyson.
- 5.8 Mae'r Cyngor Gweithredol ar y Cyd, yn dilyn cyngor gan yr Ysgrifenyddion Cyffredinol y Cyd, yn mynd i gyfarwyddo'r ymddiriedolwyr ar warediad o'r cronfeydd ac asedau eraill sy'n perthyn i'r Undeb ac ar eu buddsoddiadau i ystyried ffyrdd i wneud hi'n fwy cydnaws neu gysylltiedig i amcanion yr Undeb. Ni ellir cael gwared ar unrhyw asedau heb ganiatâd y Cyngor Gweithredol ar y Cyd.
- 5.9 Mi fydd pleidlais o'r aelodaeth yn cymryd lle i sefydlu cronfa di-blaid wleidyddol. Mi fydd y bleidlais yn cael ei chynnal yn unol â'r rheolau a gymeradwywyd gan y Swyddog Tystysgrifau ac yn berthnasol ar adeg y bleidlais. Mi fydd y bleidlais yn cael ei chynnal wedi'r dyddiad effeithiol a chyn y 31ain o Ragfyr 2018, gyda'r dyddiad manwl cywir yn cael ei gytuno gan y Cyngor Gweithredol ar y Cyd.
6. CYNNWYS, DEHONGLIAD A DIWYGIO RHEOLAU LLAWN YR UNDEB NEWYDD
- 6.1 Os bydd cwestiwn yn codi ynglŷn ag ystyr a dehongliad o'r rheolau cyffredinol, am wrthdrawiad rhwng y rheolau cyffredinol a'r rheolau adrannol neu unrhyw fater sydd ddim yn cael ei ystyried yn y rheolau hynny, mi fydd gan y Cyngor Gweithredol ar y Cyd awdurdod i wneud datganiad ynglŷn â'r cwestiwn a bydd y penderfyniad yn orfodol ar bob aelod o'r Undeb.
- 6.2
- i) Mi all y rheolau cyffredinol gael eu diwygio ar ôl derbyn cynnig gan y Cyngor Gweithredol ar y Cyd, wedi ei gefnogi gan ddim llai na saith deg pump y cant o'r aelodaeth ac yn amodol bod y newid yn peidio â bod yn effeithiol ar ben-blwydd y dyddiad y daeth yn effeithiol os nad yw wedi derbyn cadarnhad yn y cyfamser gan fwyafrif o'r gynhadledd flynyddol o'r ddwy adran.
 - ii) Er darpariaeth y rheolau hyn, mi fydd gan y Cyngor Gweithredol ar y Cyd y grym, wedi ei gefnogi gan ddim llai na saith deg pump y cant o'r aelodau i newid unrhyw rai o'r rheolau cyffredinol neu adrannol i:
 - a) Sicrhau bod y rheolau cyffredinol ac adrannol ddim yn gwrthdaro gydag unrhyw ofyniad cyfreithiol, pun a osodir gan statud neu fel arall.
 - b) Rhoi effaith i dermau'r Offeryn o Gyfuniad, yn unol â'r rheswm am fodolaeth yr Undeb.

6.3

- i) Cynhwysir gyda'r rheolau cyffredinol atodiad o reolau newydd i ddisodli'r rheolau cyffredinol a'r rheolau adrannol, a bydd y rhain yn dod i rym ar y 1af o Ionawr 2019 neu yng nghynt os ceir cytundeb gan Bwyllgorau Gwaith adrannau'r ATL a'r NUT. Cyn y 1af o Ionawr 2019 (neu yn gynt os ceir cytundeb gan Bwyllgorau Gwaith adrannau'r ATL a'r NUT) gall ond newid y rheolau newydd gan Bwyllgorau Gwaith y ddwy adran.
- ii) Mi fydd Cyngor Gweithredol cyntaf yr Undeb Newydd yn cael ei ethol i ddechrau ar ei waith ar y 1af o Ionawr 2019 (neu ar ddyddiad cynt os ceir caniatâd Pwyllgorau Gwaith adrannau'r ATL a'r NUT) a bydd yn cael ei ethol dan y rheolau newydd ac nid o dan yr hen system)
- iii) Bydd y Cyngor Gweithredol ar y Cyd yn sicrhau y bydd Cyngor Gweithredol cyntaf yr Undeb Newydd yn cael ei ethol mewn amser i ddechrau ar ei waith yn syth wedi i dymor y Cyngor Gweithredol ar y Cyd ddod i ben.
- iv) Fel y nodir yn y rheolau newydd, mi fydd etholiad y Swyddogion a'r aelodau Gweithredol ar gyfer y Gweithrediad cyntaf yn cael ei gynnal o dan nawdd y Cyngor Gweithredol ar y Cyd. Mi fydd cyfnod cychwynnol y Pwyllgor Gwaith yn cael ei ehangu i sefyll o'r 1af o Ionawr 2019 nes 31ain o Awst 2021. Mi fydd cyfnod tymor y Swyddogion yn cael ei benderfynu gan y Cyngor Gweithredol ar y Cyd. Gyda'r eithriad o'r dyddiadau rhybudd ar gyfer etholiadau, enwebu a phleidleisio, mi fydd etholiad agoriadol y Swyddogion a'r aelodau o'r Pwyllgor Gwaith yn unol â'r rheolau newydd.
- v) O ran Adrannau newydd yr NUT a'r ATL o'r Undeb Newydd, bydd nifer o'r aelodau ar Gyngor Gweithredol ar y Cyd yn cynnwys y Llywydd a'r Is-lywydd o'r ddwy adran.

Dyma gopi o'r rheolau cyffredinol arfaethedig o'r Undeb gyfunol.



Ysgrifennydd Cyffredinol yr ATL



Ysgrifennydd Cyffredinol
Undeb Cenedlaethol yr Athrawon